# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Tachwedd 2024

Amser: 11.00 - 15.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14169

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Alun Davies AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio<br>Claire McDonald, Llywodraeth Cymru<br>Jennifer Pride, Llywodraeth Cymru<br>Scott Tyler, Llywodraeth Cymru<br>Julie James AS, Counsel General Designate and Minister for Delivery<br>Dylan Hughes, Llywodraeth Cymru<br>Claire Fife, Llywodraeth Cymru<br>Luke Fletcher AS<br>Carolyn Thomas AS |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AS am eitemau 2 i 6 ar yr agenda.

Croesawodd y Pwyllgor Carolyn Thomas AS a oedd yn bresennol fel gwestai ar gyfer eitemau 2 i 6 ar yr agenda, gan gynrychioli Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Croesawodd y Pwyllgor hefyd Luke Fletcher AS a oedd yn bresennol fel gwestai ar gyfer eitemau 2 i 6, gan gynrychioli Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg: Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg.

## 3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ynni Prydain Fawr: Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni Prydain Fawr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn: Eitemau 5, 6, 12, 13, 14, 15

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ynni Prydain Fawr: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni mewn perthynas â'r Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).

## 8 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 8.1 SL(6)537 – Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru.

### 8.2 SL(6)540 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 9 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 9.1 SL(6)535 – Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i’r adroddiad a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at Lywodraeth Cymru.

### 9.2 SL(6)536 – Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i’r adroddiad.

### 9.3 SL(6)516 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

## 10 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 10.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog.

### 10.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 10.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 10.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 11 Papurau i'w nodi

### 11.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Comisiwn Annibynnol ac Adolygiad o'r Sector Dŵr

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog.

### 11.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Llywydd: Bil Hawliau Cyflogaeth

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Llywydd.

### 11.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Rhentwyr

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

### 11.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Gofal Cymdeithasol (Cymru).

### 11.5 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Gwahoddiad i roi tystiolaeth

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog, a chytunodd i ysgrifennu ymateb.

### 11.6 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Gwelliant Llywodraeth y DU i'r Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, a chytunodd i ysgrifennu'n ôl mewn ymateb.

## 12 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, a chytunodd i ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth.

## 13 Adroddiad blynyddol 2023/24: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i drafod fersiwn ddiwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 14 Y wybodaeth ddiweddaraf mewn cysylltiad â Charchar EF Y Parc

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Garchar EF Y Parc.

## 15 Gohebiaeth i Lywodraeth y DU: Diweddariad

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am ei ohebiaeth i Lywodraeth y DU.